## CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

## BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30 y.h. NOS LUN 7fed HYDREF 2024.**

### 1. CROESO
Croesawyd y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod.

### 2. YN BRESENNOL
Y Cynghorion John Evans, Irwedd GRIFFITHS, Glena Humphrey,Gwenda DAVIES, Goronwy R. WILLIAMS, Gethin OWEN, D. Gwyn Jones, Hefin WILLIAMS,Bryn JONES
a Cynghorydd y Sir - Ifor G. Lloyd, Clerc – Mel Jones

### 3. YMDDIHEURIADAU
Pawb yn bresennol.

### 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Nid oedd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

### 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 2fed Medi 2024 (Cynnig - Cynghorydd Goronwy R. WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd D. Gwyn JONES)

## 6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Medi 2024.

Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £7,600.46 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = £538.46 (Ad daliad VAT) |
| Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | = £570.12 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £142.40 (HMRC – cyflog y Clerc) |
| | = £76.68 (BT-Tal Misol WiFi-arferol (dau fis) - |
| | = £162.00 (Cradur.com – Rheoli y wefan) |
| | = £316.80 (JDH Business Services (Archwiliad lleol) |
| **Cyfrif Cymunedol** | = £6,865.92(Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,698.01 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £27.56 (Llog i 5/9/24) |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,725.57 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfanswm** | **= £12,591.49 (Cludwyd Ymlaen)** |

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£38.34 – BT – Anfoneb misol WiFi.

£62.38 – Aston Hughes (Cyflogi a gwaith HMRC)

1. Talu Bryn Jones am y Goeden Mwnci wedi ei ail blannu - £54.00 (Siec 200158)
2. Talu Hilda Gibbs and gwaith garddio yn y pentref - £60 (Tal ar lein)
3. Talu RBL am y torchiau - £50.00 (Siec 200157)
4. Tal am Teledu WiFi a cael ei gosod yn Neuadd newydd Llanelian - £1,917.99 (Siec 200159)
5. Tal am Dongle Wifi i Neuadd newydd Llanelian - £49.00 (Siec 200160)

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 8. GOHEBIAETH

**Derbynwyd**

a. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

**Anfonwyd**

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

Llythyr wedi cael ei dderbyn gan Mrs Ann Vaughan ynglyn a torri glaswellt yn Mynwent Trofarth. Mae yn amlwg for y Cyngor heb gael cais am daliad am y dair flwyddyn diwethaf.
Mae cais am dal canlynol
2021-2022 - £580.00
2022-2023 - £580.00
2023-2024 - £375.00
Cyfanswm - £1,535.00

Wedi trafod y cais roedd cydweld mae £400 y flwyddyn roedd y Cyngor wedi penderfynnu talu fel cymorth ariannol a dim tal my y gost i gyd. Y Clerc i gadarnhau nad oedd taliad wedi ei wneud am y dair blynnedd diwethaf. Os oedd dim taliad fydd y Cyngor yn talu £400.00 y flwyddyn – cyfanswm £1,200. Y Clerc i siarad hefo Mrs Vaughan i egluro a hefyd i wneud yn siwr fod cais am daliad yn dod pob blwyddyn.

Mae llythyr arall wedi cael ei dderbyn gan Mrs Vaughan yn gofyn am gymorth ariannol am 2025 i dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth. Mae'r gost wedi gostynnu i £600.00. Fydd rhaid trafod y cais yn cyfarfod Hydref pan fydd y Praesept yn cael ei drafod. Y Clerc i egluro hyn I Mrs Vaughan.

E bost gan Mrs Aloma Wheway yn gofyn am gymorth arriannol unwaith eto am y canlynnol

1. Fferins 'selection boxes' i tua 90 o blant Betws yn Rhos yn cyfarfod hefo Santa. Fydd y gost oddeutu £1.75 i bob plentyn – cyfanswm oddeutu £157.50
2. Cinio henoed Betws yn Rhos i oddeutu 26 o fobol. Fydd y gost o gwmpas £200.00

Roedd y cyfarfod yn fodlon genogi y ddau daliad yma.

Llythyr wedi ei dderbyn gan Richard Hughes, Capel Hyfrydle, Betws yn Rhos yn gofyn am gymorth ariannol tuag Eisteddfod Calan Mai fydd yn cael ei cynnal ar 26/4/2025. Fydd rhaid trafod y cais yn cyfarfod Hydref pan fydd y Praesept yn cael ei drafod. Y Cadeirydd yn mynd i esbonio hyn i Mr Hughes.

b. **Ceisiadau gan y Cyngor**

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. **CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/51976 Ymgeisydd: Mrs Kate Fairhurst**

Cynllun: Adeiladu estyniad deulawr i ddarparu ystafell fyw deuluol ar y llawr gwaelod a phrif ystafell wely yn cynnwys en-suite ac ystafell wisgo ar y llawr cyntaf. Adeiladu dormer blaen gan ychwanegu un ffenestr Velux ar ochr y Gogledd a 3 ffenestr Velux ar ochr y De, i ddarparu goleuni naturiol. Y to i gynnal estyniad i baneli ffotofoltäig presennol

Safle: Bryn Carneddau Ty Mawr Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8D

Wedi trafod y cais ag edrych ar y dogfennau roedd dim gwrthwynebiad i'r cais. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Cynllunio.

**Cyfeirnod: 0/51897 Ymgeisydd: Eirlys Parry**

Cynllun: Defnyddio tir dros dro i leoli pabell fawr am y cyfanswm o 28 o ddiwrnodau y flwyddyn

Safle: Oak Tree Farm, Ffordd FFynhonnau, Betws yn Rhos, LL22 8AB

**Cynllun wedi cael caniatad gan Adran Cynllunio**

**Cyfeirnod: 0/51882 Ymgeisydd: Mr Alex Chesworth**

Cynllun: Gwaith i'r adeilad presennol i ymdrin â materion hygyrchedd gan gynnwys estyniadau ar gyfer gosod lifft domestig, codi garej 3 cerbyd gyda pharcio hygyrch ac adeiladu cyfleuster adsefydlu gan gynnwys campfa cartref, pwll hydrotherapi, ystafell wlyb/man newid, ystafell stêm a sawna.

Safle: Plas Llewelyn Glasfryn To Dolwen Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NR

**Cynllun wedi cael caniatad gan Adran Cynllunio**

**Cyfeirnod: 0/51922 Ymgeisydd: Gareth Williams**

Cynllun: Estyniad i'r Sied Amaethyddol er mwyn cael darpariaethau storio, fel y nodir yn y datganiad o anghenion y cleient.

Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG

**Dim penderfyniad eto gan Ardan Cynllunio**

**Cyfeirnod: 0/51926 Ymgeisydd: Ms Wendy Molloy**

Cynllun: Tocio'r canghennau sy'n dod dros yr eiddo: Coeden Dderw - Torri'r brig. Coeden Dderw Fythwyrdd - Tocio'r canghennau fetr uwchben y ty haf a thocio'r canghennau 3-4 metr.

Safle: Tu cefn o 8 Llys y Dderwen Betws yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AQ

**Dim penderfyniad eto gan Ardan Cynllunio**

11. **MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae y dogfennau wedi cael ei gyrru i Archwiliad Cymru am yr archwiliad llawn.

Mae adroddiad yr Archwiliad Lleol wedi cael ei rhoi ar y wefan hefo atebion i'r pwyntiau oedd yr Archwiliad wedi ei godi.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Derbynwyd diweddaraid gan Cynghorydd Ifor Lloyd am y cyllid diwethaf yn effeithio gwasanaethau y Cyngor Sir. Roedd y Clerc hefyd wedi cael cyfarfod ZOOM hefo Clercod eraill gyda Amanda Hughes o'r Cyngor Sir. Mae yn amlwg fydd rhaid torri gwasanethau. Fydd y Cyngor yn gyrru y gwybodaeth allan mor fuan a phosib.

Yn dilyn y cyfarfod mis diwethaf roedd y Clerc wedi ysgriffenu i'r Cyngor Sir ynglyn a'r gwaith atgyweiro y ffyrdd ar ol Storm Babet. Roedd y ffyrdd canlynol yn disgwyl cael ei atgyweiro

a. Cyffordd Rhwng y Ddwyffordd – B5381
b. Ffordd Abergele rhwng Beniarth Fawr a cyffordd Bryn Ffanigl Uchaf
c. B5381 rhwng Nant yr Efail a cyffordd Aber Myrson
d. I'r gorllwein o mynedfa Bryn Ffanigl Uchaf.

Cafodd ateb gan y Cyngor fod y gwaith yn cael ei gyflawni yn fuan iawn.

Mae Ynni Cymru yn darparu £10m i gefnogi prosiectau ynni gymunedol.

Bydd y cyllid hwn yn helpu grwpiau cymwys i bweru eu cymunedau ag ynni adnewyddadwy ar gyfer dyfodol gwyrdd.

Mae y cyllid hwn wedi cau am y flwyddyn hon ond bydd yn agored eto flwyddyn nesaf.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Mae yr amcangyfrif diweddaraf i adnewyddu yr offer gan G.L. Jones wedi cyrraedd. Y gost fydd £12,780. (£9,700.80 oedd y gost yn 2022)

Y gost i cael offer newydd gan 'Creative Play'– basged swing, canolfan gweithgaredd hefo matiau glaswellt yw £17,150.00. Y gost am popeth fydd £26,850.80

Fel diweddariad mae y Clerc wedi gyrru e bost i Mr Owen Conroy ond heb gael ateb. Fydd rhaid trafod y cynllun hefo y Cyngor Sir achos nhw sydd y perchnogion o'r offer a'r cae.

Wedi cael ateb y Clerc i gysylltu hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

b. **Diffibrilwyr.**

Y gwaith i leoli diffibrilwr newydd yn safle y bont newydd yn Dawn heb ei gwbwlhau. Dal ddisgwyl amcangyfrif y gost. Mae Ifan Rowlands (Rheolydd Goleuadau Strydoedd Cyngor y Sir) yn dilyn hyn i fynnu.

Mae y ddau diffibrilwyr yn pentref Betws yn Rhos wedi cael ei trosglwyddo i gyfrif newydd y Cyngor. Nid yw y tri arall – Dolwen, Llanelian a Holland Arms wedi cael ei trosglwyddo. Y Clerc yn dal i drio cysylltu a Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs yn mynd i edrych ar ol potiau blodau yn Betws yn Rhos. Mae hi wedi dechrau y gwaith. Mae hi wedi tacluso o gwmpas y meinciau sydd wedi cael ambell ddiolch gan y gymuned.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos.**

Fydd rhaid i'r toiledau newydd gael ei adeiladu ar dalcen y Pafiliwn Chwareon. Fuasai rhaid i'r Pwyllgor Chwaraeon ymgeisio am y cynllun. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi y Pwyllgor Chwaraeon.

Erbyn y cyfarfod nesaf fydd y Cyngor Sir wedi gwneud penderfyniad os fydd toiledau Llanelian yn cau. Fydd rhaid trafod cynllun wedi cael y gwybodateh.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y 15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen sydd yn achosi difrod i'r tro ac i lorriau sydd yn  cludo nwyddau i'r ardal. Mae y Clerc wedi diweddaru y Cyngor Sir peth oedd y broblem. Y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Mae y Cyngor Sir wedi gyrru llythyr hefo monitro cyflymder traffig drwy Betws yn Rhos i'r unigolyn a gododd y mater hefo copi i'r Cyngor Cymunedol. Mae y llythyr wedi cael ei yrru i'r Cynghorion.

Ynglyn a Safle Bws gorchuddiedig yn Betws yn Rhos. Mae y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir. Yn disgwyl ateb.

Ynglyn a tocio ochr y ffordd ar gwrych yn Ffodd y Figin rhwng fferm Bryn Elain a Llanelian. Mae y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir. Yn disgwyl ateb.

Cododd Cynghorydd Gwenda Davies y cyflwr ofnadwy ar Ffordd y Mynydd, Betws yn Rhos. Mae'r Clerc wedi derbyn lluniau y cyflwr gan Cynghorydd Davies. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir.

Y Clerc yn diweddaru ei fod wedi cael y ddwy dorch yn parod at dydd Sul coffa.

## 14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00
Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12/84

Fydd rhaid i'r praesept am 2025/26 gael ei gyflwyno I'r Cyngor Sir erbyn 17/1/2025. Fydd rhaid trafod y praesept yn cyfarfod mis Tachwedd a cael ei arwyddo yn cyfarfod mis Ionawr.

## 15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

## 16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen ond yn disgwyl BT.  Mae BT yn cymeryd oesoedd i wnued   y gwaith.
Mae y Dongle wedi cael ei osod yn y neuadd yn y cyfamser. Taliad wedi cael ei gytuno.

Roedd CCTV Services ddim yn medru rhoid amcan gost am y teledu we. Mae system wedi cael ei prynu gan Curry's yn rhatach na system Betws yn Rhos. Taliad wedi cael ei gytuno.

Gobeithio fydd y cyfarfod yn Mis Tachwedd yn Canolfan Gymunedol Llanelian.

## 17. Y GADLAS

Dim awgrymiadau am erthygl.

## 18. UNRHYW FATER ARALL

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.

CADEIRYDD ………………………………………………        John EVANS

CLERC…………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 4ydd Tachwedd 2024